O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2017 Rhif 956 (Cy. 243)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Droetffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd Old Aston Hill a Chyffordd Plough Lane, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cau Dros Dro) 2017

Gwnaed *10 Mawrth 2017*

Yn dod i rym *20 Mawrth 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd pob cerddwr ar ddarn penodedig o gefnffordd yr A494 oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Droetffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd Old Aston Hill a Chyffordd Plough Lane, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cau Dros Dro) 2017.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mawrth 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of trunk road*") yw'r darn cyfan o droetffordd tua'r dwyrain yr A494 rhwng Cyffordd Old Aston Hill a Chyffordd Plough Lane, Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint, o fynedfa'r tanlwybr wrth Gyffordd Old Aston Hill am bellter o 280 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain i'r man lle y mae'n cyfarfod ag Aston Road.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Mawrth 2017

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru